TANIO!

CANLLAWIAU ARFERION DA AR
GYFRANOGAETH PLANT A PHOBL IFANC

16

GWAITHIO GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SIPSIWN A THEITHWYR

Consortiwm Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru


16

CYNNWYS

1. Canllawiau i bwy yw'r rhain? 1
2. Beth yw ystyr Cyfranogi? 1
3. Gweithio gyda Sipsiwn a Theithwyr 4
4. Y cyd-destun polisi yng Nghymru 7
5. Pwysigrwydd ymgynghori'n effeithiol 9
6. Beth yw manteision gweithio gyda phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr? 11
7. Beth yw'r heriau wrth hybu plant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr i gyfranogi? 12
8. Materion i'w hystyried 13
9. Cyfleoedd a gweithgareddau 15
10. Adnoddau defnyddiol 17

1. Canllawiau i bwy yw'r rhain?

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda, neu mewn, gwasanaethau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr (e.e. rhai sy'n gweithio yn y gymuned, gweithwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, swyddogion cynllunio, swyddogion tai, ymarferwyr addysg, yr heddlu ac ati). Er na fydd yn rhoi'r holl atebion i chi, bydd yn eich helpu i feddwl sut ddylai'r egwyddor o gyfranogi, fel y'i disgrifir yn Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), lywio'ch gwaith gyda phlant a phobl ifanc.

Amcanion y canllawiau yw:

- rhoi gwybodaeth i ymarferwyr ynghylch gweithio gyda phlant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr yng nghyd-destun cyfranogi
- darparu gwybodaeth ar sut y gellid datblygu ymarfer
- cynyddu dealltwriaeth o'r cyd-destun polisi yng Nghymru
- cyflwyno enghreifftiau o arferion da a'ch cyfeirio at adnoddau a ffynonellau cymorth a gwybodaeth
- cynyddu dealltwriaeth o bwysigrwydd cynnwys plant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr wrth wneud penderfyniadau a llunio polisïau.

2. Beth yw ystyr Cyfranogi?

Mae Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn cynnwys hawl plant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn popeth sy'n effeithio arnynt. Wrth gynnig cyfle iddynt gyfranogi a chymryd rhan, mae plant a phobl ifanc hefyd yn cael cyfle i newid pethau – yn eu bywydau nhw'n bersonol yn ogystal â'u cymunedau ac yn rhyngwladol.

Mae Sipsiwn a Theithwyr ymhlith y grwpiau mwyaf ymylol, dan anfantais, mewn cymdeithas. O'r herwydd, nid yw pobl ifanc o'r cymunedau hyn yn cael fawr o gyfle i gymryd rhan a dweud eu dweud. Mae'r hawl hwn yn berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc, ond gall cyfuniad o achosion o wahaniaethu, diffyg ymwybyddiaeth gan ddarparwyr gwasanaethau, a gwasanaethau a strwythurau nad ydynt yn hollgynhwysol olygu bod Sipsiwn a Theithwyr yn llai tebygol o gyfranogi'n effeithiol.

'Nôl yn 2005, cynhaliodd y Llywodraeth gystadleuaeth yn gofyn i bobl ifanc grynhoi 'cyfranogi' mewn un frawddeg. Dyma'r frawddeg fuddugol:

"Ystyr cyfranogiad yw bod gennyf yr hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau, o gynllunio ac o adolygu unrhyw gam a all effeithio arnaf i. Cael llais, cael dewis"
Llywodraeth Cymru 2005.

Mae agenda cyfranogiad plant a phobl ifanc yma yng Nghymru wedi datblygu mewn modd unigryw. Mae'r datblygiadau hyn yn rhan o fframwaith ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, sydd wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol bellach fel sail i'w holl waith gyda phlant a phobl ifanc. *(Gweithredu'r Hawliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004).*

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r broses o ddatblygu cyfranogiad plant a phobl ifanc:

- Sefydlu Comisiynydd Plant fel eiriolwr annibynnol dros blant a phobl ifanc
- Sefydlu Cynulliad Plant a Phobl Ifanc – y Ddraig Ffynci
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Prosiect 'Y Daith Ymlaen' wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i sefydlu Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc
- Darparu cyllid penodol, am dymor byr, i awdurdodau lleol ddatblygu strategaethau cyfranogi, gan gynnwys Fforymau Ieuenctid, gyda phwyslais ar bobl ifanc 11 – 25 oed
- Ei gwneud yn orfodol i holl ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig Cymru sefydlu Cyngor Ysgol
- Sefydlu grŵp gorchwyl i ystyried strwythur sy'n cynnwys plant a phobl ifanc mewn prosesau gwneud penderfyniadau ledled Cymru
- Yn sgil y grŵp gorchwyl hwn, sefydlwyd Consortiwm Cyfranogaeth ac Uned Gyfranogiad Cymru, fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau nhw.

Bydd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn cael cryn effaith ar y modd mae Llywodraeth Cymru'n ymdrin â phlant a phobl ifanc gan ei fod yn gofyn i Weinidogion dalu 'sylw dyledus' i CCUHP wrth wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Nod y Consortiwm Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc a'r Uned Gyfranogiad yw sicrhau bod plant a phobl ifanc (hyd at 25 oed) yn cyfrannu fwy at benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yng Nghymru. Gyda'i gilydd, maent wedi datblygu Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc a ardystiwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Ddraig Ffynci, Cynulliad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc Cymru. Gallwch lawrlwytho'r poster o wefan Gweithwyr Cyfranogiad (ewch i'r adran Adnoddau Defnyddiol).

Y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru

Cael Llais – Cael Dewis

Ydyn ni'n cwrdd â'ch safonau?*

* Mae 'Ni' yn golygu unrhyw un sy'n gofyn i blant a phobl ifanc gyfranogi. Mae gennych 'Chi' yr hawl i ddisgwyl y safonau hyn.

"Ystyr cyfranogiad yw bod gennyf yr hawl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau, o gynllunio ac o adolygu unrhyw gam a allai effeithio arnaf i. Cael llais, cael dewis"

GWYBODAETH

Ystyr hyn yw:
- Gwybodaeth sy'n hawdd i bawb ei deall
- Oedolion yn gweithio gyda chi sy'n gwybod beth sy'n digwydd ac sy'n agored ac yn glir.

Byddwn yn:
- Sicrhau bod pawb yn cael digon o wybodaeth i gymryd rhan yn iawn
- Dweud wrthych chi sut y bydd y ffaith eich bod chi'n cymryd rhan yn gwneud gwahaniaeth
- Dweud wrthych chi pwy sy'n mynd i wrando a newid pethau.

EICH DEWIS CHI

Ystyr hyn yw:
- Mai chi sy'n dewis ydych chi am gymryd rhan neu beidio
- Mai chi sy'n cael dewis gweithio ar bethau sy'n bwysig i chi
- Mai chi sy'n dewis beth rydych chi'n ei wneud a sut.

Byddwn yn:
- Rhoi digon o wybodaeth ac amser i chi benderfynu ydy hyn yn rhywbeth yr ydych chi eisiau ei wneud ai peidio.

DIM GWAHANIAETHU

Ystyr hyn yw:
- Bod plant a phobl ifanc i gyd yn wahanol ond bod gan bob un ohonoch yr un hawl i gael dweud eich dweud am faterion sy'n bwysig i chi.
- Rydym eisiau i bawb deimlo eu bod yn cael croeso a'u bod yn gallu cymryd rhan os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

Byddwn yn:
- herio unrhyw wahaniaethu
- cysylltu â phlant a phobl ifanc mewn llawer o wahanol sefyllfaoedd
- eich cael chi i gymryd rhan yn y pethau rydych chi am gymryd rhan ynddyn nhw.

PARCH

Ystyr hyn yw:
- Bod gan bawb gyfle i ddweud eu dweud, bod eich barn yn bwysig ac y byddwn yn ei pharchu.

Byddwn yn:
- gwrando ar eich syniadau, eich safbwyntiau a'ch profiadau
- eich cymryd chi o ddifri ac yn eich trin chi'n deg
- gweithio gyda chi i wneud rhywbeth am y materion sy'n bwysig i chi
- gweithio gyda chi i'ch helpu i newid pethau er gwell.

BYDDWCH CHI AR EICH ENNILL HEFYD

Ystyr hyn yw:
- Ein bod ni am i chi fwynhau ac elwa o gymryd rhan
- Ein bod yn gwybod bod gennych bethau eraill i'w gwneud yn eich bywydau hefyd!
- Sicrhau bod cymryd rhan yn brofiad cadarnhaol, nid yn un negyddol.

Byddwn yn:
- gweithio mewn ffyrdd diogel, pleserus, llawn hwyl
- gwneud yn fawr o'r yr hyn rydych yn ei wybod
- gwneud pethau cadarnhaol sy'n meithrin eich hyder
- cwrdd mewn llefydd cyfeillgar sy'n hwylus i bobl ifanc
- gwerthfawrogi ac yn parchu'r hyn sydd gennych i'w gynnig.

ADBORTH

Ystyr hyn yw:
- Mae'n bwysig iawn eich bod yn gwybod pa wahaniaeth rydych wedi'i wneud a sut y mae'ch syniadau wedi cael eu defnyddio.

Byddwn yn:
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am beth sy'n digwydd
- rhoi adborth i chi cyn gynted ag sy'n bosib a hynny mewn ffordd hawdd ei deall.

GWELLA EIN FFORDD O WEITHIO

Ystyr hyn yw:
- Ein bod ni eisiau dysgu a gwella ein ffordd o weithio gyda chi.

Byddwn yn:
- edrych ar ein ffordd o weithio gyda chi a sut mae gwella ar hynny
- gofyn i chi beth sydd wedi mynd yn dda a beth sydd angen ei newid
- sicrhau bod eich barn yn gwneud gwahaniaeth i sut y byddwn ni'n cynllunio ac yn gwneud penderfyniadau.

Rhain yw'r safonau a gytunwyd arnynt ar gyfer cyfranogaeth plant a phobl ifanc yng Nghymru

3. Gweithio gyda Sipsiwn a Theithwyr

Hanes a diwylliant

Cyn gweithio gyda phobl ifanc o'r cymunedau hyn, mae'n werth cofio bod yna lawer o fathau gwahanol o Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys:

- Sipsiwn (o Gymru, Lloegr neu'r Alban)
- Teithwyr Gwyddelig
- Roma Ewropeaidd
- Teuluoedd neu berfformwyr ffair
- Trigolion cychod camlas a phobl eraill sy'n byw ar y dŵr.

Mae'r holl grwpiau hyn yn byw bywydau crwydrol neu nomadig yn draddodiadol. Golyga hyn eu bod yn mynd o le i le am resymau gwaith a chymdeithasol yn aml. Mae llawer o bobl yn trin Sipsiwn a Theithwyr fel petaent yn perthyn i un gymuned fawr, ond mewn gwirionedd, mae gan bob grŵp ei draddodiad, iaith ac ethnigrwydd ei hun. Yn draddodiadol, roedd Sipsiwn a Theithwyr yn gwneud gwaith a olygai eu bod yn gallu teithio fel gwaith fferm; gwerthu ceffylau; neu storïwyr a cherddorion teithiol. Mae llawer o Sipsiwn a Theithwyr yn dal i wneud y math hwn o waith. Mae prynu a gwerthu metel sgrap, gwaith coed, adeiladu a thrin gwallt hefyd yn swyddi poblogaidd ymhlith Sipsiwn a Theithwyr.

Erbyn heddiw, mae Sipsiwn a Theithwyr yn gwneud pob math o waith amrywiol eraill hefyd, fel gweithio fel gweision sifil i'r llywodraeth, gweithio mewn ysgolion, gwaith plymio a sawl maes arall. Mae Sipsiwn a Theithwyr wedi mynd ymlaen i serennu ym myd pêl-droed, bocsio, cerddoriaeth, canu a dawnsio. Mae'n bosibl bod Sipsiwn a Theithwyr yn gweithio yn y rhan fwyaf o broffesiynau, ond bod rhai'n teimlo rheidrwydd i guddio'u cefndir ethnig rhag i bobl wahaniaethu yn eu herbyn.

> "*Mae Sipsiwn a Theithwyr ifanc yn union yr un fath â phobl ifanc eraill. Rydyn ni'n byw ychydig yn wahanol, dyna'i gyd*" *Pobl ifanc yn Sir Benfro.*

Mae gan grwpiau gwahanol o Sipsiwn a Theithwyr draddodiadau gwahanol, ond y pethau pwysicaf i'r grwpiau i gyd yn gyffredinol yw:

- Y teulu a'r gymuned
- Gofalu am blant, yr henoed neu rai sy'n wael
- Glendid
- Crefydd
- Teithio

Fel arfer, mae Sipsiwn a Theithwyr yn byw'n annibynnol a hunangynhaliol, lle maent yn gofalu am eu hunain. Mae gan ddynion a menywod ddyletswyddau gwahanol, gyda'r menywod yn gofalu am y cartref a'r dynion yn mynd allan i weithio, yn aml yn hunangyflogedig.

Mae'r holl Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru yn gallu siarad Saesneg, er bod rhai'n siarad ieithoedd eraill hefyd. Er enghraifft, gall Sipsiwn siarad Romani neu Gymraeg Romani. Gall teithwyr Gwyddelig siarad *Gammon* neu *Cant*, sy'n deillio o hen iaith Sielta.

Er bod teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr yn aml yn cydfyw fel cymdogion, mae ganddynt gyndeidiau gwahanol. Mudodd y Sipsiwn o ogledd India ar hyd a lled Ewrop ac Asia yn ystod y mileniwm diwethaf, tra bod Teithwyr Gwyddelig yn gynhenid i Iwerddon. Pobl nomadig fuon nhw erioed, fodd bynnag, ac nid ydynt yn rhan o'r gymdeithas Wyddelig ehangach.

Mae Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn grwpiau ethnig cydnabyddedig sydd wedi'u gwarchod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae hyn yn golygu bod rhaid diogelu'r grwpiau hyn yn erbyn gwahaniaethu hiliol, a bod awdurdodau statudol yn gorfod mynd ati'n ddyfal i gynnig cyfleoedd cyfartal iddynt. Fel grŵp lleiafrifol cydnabyddedig, mae'n rhaid ysgrifennu'r geiriau "Sipsiwn" a "Theithwyr" â phriflythyren yn union fel y byddech yn ysgrifennu "Iddewig" neu "Cymraeg". Mae 'Meini Prawf Mandla' yn diffinio'r nodweddion angenrheidiol sy'n rhaid i grŵp eu cael cyn y gellir ei ystyried yn lleiafrif ethnig. Mae'r rhain yn cynnwys hanes hir o berthyn, ymdeimlad o fod yn unigryw a'u harferion diwylliannol eu hunain sy'n gysylltiedig â theulu neu gymdeithas. Yn hollbwysig i Sipsiwn a Theithwyr, nid yw Meini Prawf Mandla yn nodi bod rhaid i'r grwpiau hyn ymroi i deithio. Camsyniad cyffredin yw tybio nad yw Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi ymgartrefu mewn tai yn cael eu hystyried yn rhan o leiafrif ethnig sydd wedi'i ddiogelu gan y gyfraith.

Ffaith a ffuglen

Mae Sipsiwn a Theithwyr wedi bod ar gyrion cymdeithas ers cyn cof, heb fawr o bobl yn barod i gefnogi'u hachos neu'n gallu gwneud hynny. Dyw cyfran sylweddol o'r cyhoedd erioed wedi sgwrsio â Sipsiwn na Theithwyr, hyd y gwyddant, heb sôn am dreulio digon o amser yn eu cwmni i'w deall yn iawn. O'r herwydd, mae'n rhy hawdd o lawer i'r cyfryngau a gwleidyddion ddweud anwireddau am gymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Dyma rai o'r mythau cyffredin:

- "Dyw Sipsiwn ddim yn talu trethi!"
  - Mae'r rhai sy'n byw ar safleoedd awdurdodedig yn talu 'tâl plot' a threthi cyfleustodau, a'r rhai sy'n byw mewn tai yn talu'r Dreth Gyngor. Mae pawb sy'n ennill cyflog yn talu Treth Incwm a'r mwyafrif yn talu TAW a threth car hefyd.

- **"Mae Sipsiwn yn dibynnu ar fudd-daliadau"**
  - Mae'r ffordd o fyw deithiol yn rhwystro llawer rhag hawlio budd-daliadau gan fod angen cyfeiriad sefydlog arnynt. Mae'r rhai sy'n byw ar safleoedd anawdurdodedig neu deuluoedd fwy nomadig felly'n cael trafferth hawlio budd-daliadau.

- **"Dyw Sipsiwn ddim yn mynd i'r ysgol"**
  - Mae nifer sylweddol o Sipsiwn a Theithwyr yn gadael ysgol uwchradd cyn pryd. Gall hyn fod oherwydd ymosodiadau hiliol, neu brofiadau eu rhieni o gael eu bwlio. Weithiau, mae pobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu heithrio o'r ysgol ar ôl taro'n ôl yn erbyn hiliaeth. Neu efallai fod y rhieni eisiau diogelu diwylliant y Sipsi neu'r Teithiwr yn hytrach na bod eu plant yn agored i beryglon camddefnyddio cyffuriau neu anfoesoldeb rhywiol.

- **"Dyw'r Sipsiwn byth yn ufuddhau i ddeddfau cynllunio"**
  - Mae hyd at ddwy ran o dair o Sipsiwn a Theithwyr yn byw mewn tai. Does dim digon o blotiau/lleiniau dros ben mewn safleoedd awdurdodedig i gartrefu'r traean arall. Y cyngor swyddogol yw prynu tir a chael caniatâd cynllunio, ond hyd yn oed pan oedd Sipsiwn a Theithwyr wedi gwneud hyn, gwrthodwyd 90% o'r ceisiadau cynllunio o gymharu ag 20% o geisiadau gan bobl nad ydynt yn Deithwyr. Mae rhai sy'n byw gerllaw safleoedd arfaethedig yn gwrthwynebu ceisiadau cynllunio, gan adael 25% o'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn gyfreithiol-ddigartref.

'Beth dd'wedon nhw?' – ymateb gwleidyddion a'r cyfryngau

Mae'r straeon camarweiniol hyn ac eraill yn aml yn cael cyhoeddusrwydd pellach gan y cyfryngau a chan wleidyddion. Mae sicrhau bod gan wasanaethau cyhoeddus agwedd gynhwysol tuag at wahanol ddiwylliannau, yn enwedig y diwylliannau crwydrol, bob amser yn gryn her i lunwyr polisi. Bydd darparu adnoddau wedi'u targedu ar gyfer y grwpiau hyn hefyd yn bwnc llosg gan fod gan garfannau mawr o'r cyhoedd safbwyntiau gwahanol ynglŷn â'r ffordd orau o ymgysylltu â chymunedau penodol. Serch hynny, mae problemau'n codi pan fo'r ddadl yn seiliedig ar ofn a rhagfarn ac mae hynny'n aml yn wir wrth drafod y gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

Mae sylwadau a gweithredoedd rhai gwleidyddion hefyd wedi ychwanegu at y mythau a'r anwybodaeth ynghylch Sipsiwn a Theithwyr. Maent yn amrywio o ddweud bod Hitler yn llygad ei le o ran sut i ymdrin â'r Sipsiwn – gan gyfeirio at ladd hyd at filiwn o Sipsiwn yn ystod yr Ail Ryfel Byd – i fynychu seremoni llosgi carafan bren ac arddelw teulu o Deithwyr. Yn aml iawn, maent yn camddehongli'r cysyniad o gyfle cyfartal, gan fynnu y dylai Sipsiwn a Theithwyr gael eu trin yn union fel pawb arall o'r gymdeithas yn lle derbyn bod y ddeddfwriaeth yn dweud y gellir trin y cymunedau hyn yn wahanol i sicrhau cyfle cyfartal.

4. Plant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr – y cyd-destun polisi yng Nghymru

Mae llu o bolisïau'r llywodraeth yn effeithio ar blant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru. Mae nifer o'r cyfrifoldebau polisi hyn yn effeithio'n benodol ar deuluoedd, plant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gall Sipsiwn a Theithwyr wynebu anawsterau di-ri wrth gael gafael ar wasanaethau, cymorth a'u hawliau, ac maent yn ymroi i wella'r sefyllfa i oedolion, plant a phobl ifanc:

"Sipsiwn a Theithwyr yw'r grŵp sydd wedi'i ddifreinio a'i ymyleiddio fwyaf mewn cymdeithas. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gael gwared ar yr anghydraddoldebau y mae Sipsiwn a Theithwyr yn eu hwynebu trwy wella cyfle cyfartal i bawb."
- Dyfyniad o *'Teithio at Ddyfodol Gwell'* Fframwaith Gweithredu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, Llywodraeth Cymru

Er mwyn cyflawni hyn, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddatblygu 'Fframwaith Gweithredu' sy'n sicrhau bod anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu cynllunio mewn ffordd decach a mwy systematig.

Astudiaeth Achos: Ymgynghori ar strategaeth ddrafft Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru

Fel rhan o'r broses o ddatblygu Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, bu mudiad Achub y Plant ac Ear2theGround yn ymgynghori â phobl ifanc. Cynhaliwyd digwyddiadau rhanbarthol gyda phobl ifanc y Gogledd a'r De, yn ogystal ag anfon holiaduron ar hyd a lled Cymru. Holwyd cant a mwy o bobl ifanc am faterion addysg, iechyd, cydraddoldeb, llety ac ati. Cafodd ymateb y bobl ifanc ei gynnwys yn adroddiad 'Generations for the Future', a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru wedyn. Yna, ymatebodd y Llywodraeth i argymhellion y bobl ifanc, a chafodd nifer ohonynt eu mabwysiadu yn y fframwaith gweithredu terfynol 'Teithio at Ddyfodol Gwell' – gan gynnwys yr enw. Yn bwysicach fyth, roedd Llywodraeth Cymru'n cytuno gyda'r bobl ifanc ynghylch llawer o'r atebion i faterion gan gynnwys llety, gofal iechyd ac addysg.

Mae Fframwaith Gweithredu 'Teithio at Ddyfodol Gwell' a'r adroddiad 'Generations for the Future' (y fersiwn swyddogol a'r fersiwn pobl ifanc) ar gael yn llyfrgell adnoddau'r wefan yn www.travellingahead.org.uk/toolkit/resources

Mae gan dîm Sipsiwn a Theithwyr o Is-adran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb cyffredinol dros ddatblygu polisïau sy'n ymwneud â sipsiwn a theithwyr yng Nghymru. Fodd bynnag, mae llawer o adrannau Llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu polisïau sy'n effeithio ar fywydau Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r tîm Sipsiwn a Theithwyr yn gweithio gyda swyddogion ledled Llywodraeth Cymru, gan gynnwys swyddogion Tai, Iechyd, Addysg, Cydlyniant Cymunedol a Chynllunio er mwyn sicrhau dull teg a chyson o fynd i'r afael â materion sy'n wynebu Sipsiwn a Theithwyr.

Yn ogystal â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, mae deddfwriaethau a pholisiau allweddol eraill yn effeithio ar bobl ifanc o'r cymunedau hyn – gan gynnwys Deddf Tai 2004, sy'n dweud bod rhaid ystyried anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Yn achos *Clarke v. Secretary of State for the Environment, Transport and the Regions*, barnodd yr Uchel Lys pe bai gan Sipsi neu Deithiwr wrthwynebiad i dai traddodiadol, y byddai cynnig o'r fath yn annerbyniol, *'just as would be the offer of a rat-infested barn'*. Dywedodd Llys Hawliau Dynol Ewrop fod yn rhan i'r DU hwyluso ffordd o fyw Sipsiwn a Theithwyr hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi *'Canllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod'* sy'n annog awdurdodau lleol i ddatblygu eu polisïau eu hunain. Roedd y canllawiau hyn yn dweud bod angen ystyried anghenion lles a chaniatáu safleoedd posibl. Felly, wrth ystyried gwersylloedd diawdurdod, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i ystyried effaith eu gweithreoedd ar rai sy'n byw ar y safle dan sylw ac ystyried pa mor addas yw'r trefniadau llety amgen.

Mae hefyd yn bwysig bod yr holl ddeddfwriaethau arferol, fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn berthnasol i bobl ifanc o'r cymunedau hyn. Cwyn gyffredin gan Sipsiwn a Theithwyr ifanc yw bod pobl eraill bob amser yn meddwl bod angen eu gwasanaethau arbennig eu hunain arnynt yn hytrach na gwasanaethau prif-ffrwd sy'n fwy hygyrch. Mae pryderon gwirioneddol bod gwasanaethau sydd wedi'u trefnu'n arbennig i Sipsiwn a Theithwyr yn ychwanegu at ymdeimlad ynysig y cymunedau hyn, yn hytrach na sicrhau bod gwasanaethau'n wirioneddol gynhwysol. Trwy ddilyn cyngor y canllawiau hyn, gall eich helpu i sicrhau bod eich gwasanaethau'n fwy cynhwysol i bobl ifanc o'r cymunedau hyn ac eraill.

5. Pwysigrwydd ymgynghori'n effeithiol

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd ddeddfwriaethol i ymgynghori â Sipsiwn a Theithwyr dan Ddeddf Tai 2004, wrth asesu eu hanghenion llety, a hefyd dan yr Arolygon Cydraddoldeb Hiliol. Mae ymgynghori'n rheolaidd yn cynnwys llu o fanteision, o ran creu polisïau sy'n cynnwys pawb ac wrth ddatblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pawb o'r gymuned deithwyr. Mae'n bwysig rhoi adborth hefyd ar ôl unrhyw broses ymgynghori, a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gymuned. Os na wnewch chi hyn, efallai y bydd pobl yn troi'n sinigaidd ac yn teimlo nad yw ymgynghori yn hyrwyddo newidiadau. Dylai gweithwyr ofalu nad ydynt yn codi gobeithion a disgwyliadau afrealistig o ran beth ellir ei ddisgwyl o'r ymgynghoriadau. Mae hefyd yn arfer da i sefydliadau ac asiantaethau ddefnyddio ffurflen protocol cyfranogiad cyn gwneud cais i ymgynghori â phlant a phobl ifanc neu ofyn iddynt gyfranogi. Mae'r ffurflen protocol yn gofyn i sefydliadau oedi a meddwl am ansawdd y broses gyfranogi cyn iddynt fynd ati i gynnwys plant a phobl ifanc.

Ffurflen Protocol Cyfranogiad

Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc

Fel llawer o ddogfennau strategaeth lleol eraill, mae gofyniad yn aml i gynnwys plant a phobl ifanc wrth gynllunio a gwerthuso'r broses o ddatblygu gwasanaethau. Er mwyn cyd-fynd â'r Safonau Cyfranogi a fabwysiadwyd a diogelu plant a phobl ifanc rhag prosesau ymgynghori a chyfranogi anfoesol, mae angen i chi nodi eich bwriadau a'ch gofynion yn fanwl.

Mae'r ffurflen hon yn pennu'r protocol i sicrhau eich bod yn defnyddio dulliau teg i gael plant a phobl ifanc i gyfranogi, a'ch bod yn cydnabod, gwerthfawrogi a defnyddio'u cyfraniad.

A fyddech cystal ag ateb y cwestiynau canlynol.

Byddwn yn rhannu'r holl ymatebion â'r plant a phobl ifanc a dargedir gennych, ac yn eu defnyddio fel ffordd o'u helpu i benderfynu cymryd rhan.

Dychwelwch y ffurflen hon at: .....

Enw'r sefydliad: .....

Manylion cyswllt llawn: .....

.....

.....

Teitl eich prosiect: .....

Math o weithgarwch: .....

Am ba hyd fydd y gwaith hwn yn para/beth fydd dyddiad y digwyddiad?

Nodwch yn glir beth yw'r nodau a'r amcanion o gael plant a phobl ifanc i gyfranogi, a beth ydych chi'n gobeithio'i gyflawni trwy eu cynnwys?

Pa ddulliau cymryd rhan ydych chi'n gobeithio'u defnyddio? A fydd yr arddull/dull a'r cynnwys yn ennyn diddordeb phobl ifanc? e.e. grŵp trafod, arolwg, gweithdy, dull yn seiliedig ar weithgaredd?

Cyflwynwch fframwaith clir i ddangos sut y byddwch yn defnyddio syniadau a gwybodaeth gan blant a phobl ifanc i ddatblygu polisïau a gwasanaethau?

Eglurwch sut ydych chi'n bwriad rhoi adborth i blant a phobl ifanc ar ôl iddynt gyfrannu syniadau:

Enw: .....

Llofnod: ..... Date: .....

Astudiaeth Achos: Grŵp Ymchwilwyr Ifanc Caerdydd

Wrth ymgynghori ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru ar Sipsiwn a Theithwyr, roedd pobl ifanc yn rhan o'r broses fel ymchwilwyr cyfoedion. Cysylltodd Achub y Plant ac Ear2theGround â Gwasanaeth Addysg Teithwyr lleol er mwyn cynnig cyfle i bobl ifanc a oedd wedi gweithio gyda'r sefydliad o'r blaen. Y bwriad oedd casglu ymchwil o safbwynt Sipsi neu Deithiwr ifanc yn hytrach nag o safbwynt Llywodraeth Cymru.

Fe wnaeth yr ymchwilwyr ifanc nodi themâu i'w trafod, a fu'n sail i'r adroddiad 'Generations of the Future'. Cyfrannodd yr ymchwilwyr cyfoedion yn llawn at yr ymgynghoriad, gan gynnal eu cyfweliadau eu hunain. Ysgrifennodd Ear2theGround yr adroddiad ymgynghori ffurfiol, gyda'r ymchwilwyr ifanc yn datblygu eu hadroddiad eu hunain sy'n fwy addas i bobl ifanc. Cyflwynwyd y ddau adroddiad yn bersonol i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac atebodd Llywodraeth Cymru i'r argymhellion – ac ymddangosodd llawer ohonynt yn y Fframwaith Gweithredu 'Teithio at Ddyfodol Gwell' maes o law.

6. Beth yw manteision gweithio gyda phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr?

- Mae'n galluogi plant a phobl ifanc i ymgysylltu mwy â'r gwasanaethau a dderbyniant
- annog plant a phobl ifanc i gyfrannu at y broses gynllunio
- hyrwyddo ymgysylltu a chydymffurfio trwy gynnwys ac ymgynghori â phlant a phobl ifanc ar benderfyniadau a chanlyniadau a fydd yn effeithio arnynt
- helpu plant a phobl ifanc i gyflawni eu potensial, magu hyder a hunan-barch
- cynnig cyfle i blant a phobl ifanc ymateb i'r gwasanaethau a gawsant, beth yw ystyr 'gwasanaeth da', a thrafod unrhyw drafferthion a gawsant.

(Gweler 'Tanio 2: Dadlau'r Achos dros Gyfranogiad' am fwy o wybodaeth

7. Beth yw'r heriau wrth hybu plant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr i gyfranogi?

Nid yw egwyddorion cyffredinol cyfranogi yn newid wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc Sipsiwn a Theithwyr. Wedi'r cwbl, maent yn blant a phobl ifanc fel unrhyw grŵp arall. Yr unig beth sy'n wahanol yw'r *dull o weithio*.

1. Y cam cyntaf yw nodi nodweddion y grŵp sydd angen ei gynnwys.
2. Y cam nesaf yw datblygu cynllun, sydd angen mynd i'r afael ag unrhyw anawsterau penodol o ran mynediad ac ati.
3. Y cam olaf yw mynd i'r afael â rhwystrau penodol i gynnwys y grŵp hwn o blant a phobl ifanc.

Mae'n bwysig bod yn realistig o ran yr amser a'r adnoddau fydd eu hangen er mwyn helpu'r bobl ifanc hyn i gymryd rhan yn effeithiol. Bydd llawer ohonynt yn teimlo nad oedd cymryd rhan wedi bod o fudd yn y gorffennol, neu'n amau a fydd rhywun yn gwrando go iawn. Gall gymryd amser a chryn dipyn o ymgysylltiad i ddarbwyllo pobl ifanc bod eich gwasanaeth o ddifrif ynglŷn â'u cynnwys nhw.

Astudiaeth Achos: Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Fairshare Wrecsam

Roedd Fforwm Amlasiantaeth Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig Wrecsam yn cydnabod bod angen cael swyddog allestyn i weithio'n uniongyrchol gyda'r cymunedau a gynrychiola. Nod y prosiect oedd cynnig cyngor a chymorth un-i-un, datblygu strwythurau a grwpiau cymunedol, a chynyddu'r amrywiaeth o wasanaethau cymorth sydd ar gael i'r cymunedau hynny.

Yn gyntaf, fe wnaeth y prosiect gydnabod y byddai'n llwyddo neu fethu ar sail pa mor gadarn oedd y berthynas rhyngddo â'r Sipsiwn a Theithwyr. Treuliodd y swyddog gryn dipyn o amser yn ymweld â theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr a chynnig cymorth iddynt. Ymhen hir a hwyr, llwyddodd y prosiect i gael ei dderbyn gan y cymunedau hyn a dod yn ddolen gyswllt bwysig rhwng darparwyr gwasanaethau a theuluoedd Sipsiwn a Theithwyr. Bu'r model hwn o gymorth i ddenu mwy o Sipsiwn a Theithwyr i gyfrannu at y fforwm amlasiantaeth, mewn digwyddiadau a drefnwyd, a gwasanaethau'n gyffredinol.

8. Materion i'w hystyried

Mae bob amser yn anodd rhoi canllawiau cyffredinol ar sut i weithio gyda phobl ifanc o gymunedau arbennig. Dyma enghreifftiau o'r materion y gallech eu hwynebu wrth weithio gyda Sipsiwn a Theithwyr:

- **Negyddiaeth**: Mae llawer o bobl ifanc yn teimlo nad oes unrhyw bwrpas cymryd rhan.

- **Moesoldeb**: Mae ymdeimlad o ddiffyg moesoldeb yn y boblogaeth sefydlog o ran rhyw a chyffuriau. Felly, efallai fod rhai rhieni'n anfodlon gyda gweithgareddau cymysg.

- **Aros dros nos**: ychydig iawn o bobl ifanc sy'n treulio noson ar wahan i'w teuluoedd cyn priodi.

- **Dyletswyddau'r ddau ryws**: Mae rhaniad rhwng y ddau ryw, gyda'r merched yn fwy tebygol o aros gartref i ofalu am y trelar a phlant bach.

- **Llythrennedd**: Mae cyfran uchel iawn o aelodau'r cymunedau hyn yn allythrennog.

- **Llety**: Efallai fod pobl ifanc sy'n defnyddio'ch gwasanaeth mewn perygl o gael eu troi allan o'u cartrefi, yn byw mewn cartref ond ar wahan i'w cylch cefnogaeth, neu'n ei chael hi'n anodd symud ymlaen drwy'r adeg. Gall hyn gael effaith ddifrifol ar eu gallu i fanteisio ar wasanaethau.

- **Sensitifrwydd diwylliannol**: Nid yw llawer o wasanaethau'n ystyried materion diwylliannol Sipsiwn a Theithwyr e.e. ni fydd cleifion benywaidd yn fodlon gweld meddyg gwrywaidd, a ddim yn trafod bwydo ar y fron a phynciau eraill o flaen dynion, arferion glendid Mokadi a Mahrime.

- **Rhagdybiaethau**: Ffactor arall a allai rwystro Sipsiwn a Theithwyr ifanc rhag cymryd rhan yw'r rhagdybiaethau sydd ganddynt ynglŷn â phobl nad ydynt yn Deithwyr. Bydd gan rai Sipsiwn a Theithwyr agweddau negyddol oherwydd ymdeimlad o elyniaeth neu wahaniaethu yn eu herbyn nhw neu eu teuluoedd.

Y Manylion: Mynediad diogel a chaniatâd deallus



Wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc, mae'n bwysig ystyried y materion allweddol ynghylch mynediad diogel a chaniatâd deallus. Mae'n debygol o gymryd mwy o amser i drefnu mynediad diogel i weithio gyda Sipsiwn a Theithwyr ifanc o gymharu â phlant a phobl ifanc eraill. Gall olygu defnyddio'r Gwasanaeth Addysg Teithwyr lleol neu Fforymau Ieuenctid sydd wedi'u sefydlu.

Gall gweithwyr fod yn amheus neu'n ddrwgdybus o gymhellion pobl allanol, ac yn teimlo'n warchodol o'r plant a phobl ifanc y maen nhw'n gweithio gyda nhw. Gall sawl rheswm fod yn gyfrifol am hyn e.e. profiad gwael o ymgynghori yn y gorffennol neu ei bod wedi cymryd cryn amser i feithrin ymddiriedaeth y bobl ifanc ac ati. Mae'n bwysig eich bod yn gwbl glir ynghylch amcanion y prosiect, beth sydd ar y gweill a pha wybodaeth gaiff ei darparu i'r rhai dan sylw a'u rhieni a/neu ofalwyr.

Dylech gael caniatâd deallus gan bawb sy'n cymryd rhan. Wrth weithio gyda rhai dan 16 oed, hyd yn oed trwy ysgol, dylech o leiaf roi gwybod i'r rhieni beth sy'n digwydd a gofyn am eu caniatâd nhw. Mae cael caniatad ysgrifenedig gan blant a phobl ifanc yn enghraifft o arfer da. Ni fydd pob person ifanc yn yr ysgol, ond os ydych chi'n bwriadu gweithio gyda phobl ifanc mewn ysgol yna beth am weithio y tu allan i oriau ysgol neu'n ystod yr awr ginio.

Y Manylion: Meithrin ymddiriedaeth



Er mwyn gwneud gwaith cyfranogi effeithiol gydag unrhyw grŵp, mae angen rhywfaint o ymddiriedaeth. Gall hyn gymryd amser yn achos plant a phobl ifanc sy'n anoddach i'w cynnwys yn y broses hon. Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol yw cydweithio'n agos â'r oedolion hynny sydd eisoes â pherthynas dda gyda'r plant a'r bobl ifanc. Dyma rai pethau defnyddiol i'w cadw mewn cof:

- Rheolwch ddisgwyliadau y bobl ifanc rydych yn gweithio gyda nhw. Gall fod yn anodd newid agweddau trwy ymyriadau bychain, a gall gymryd amser i newid polisïau.
- Sefydlwch 'reolau gweithio' a gytunwyd ar y cyd, fel bo'r naill ochr a'r llall yn gwybod beth i'w ddisgwyl.

- Gofalwch fod gan grwpiau un rhyw o leiaf un gweithiwr o'r un rhyw yn gweithio gyda nhw.
- Cofiwch am y math o iaith y mae rhai Sipsiwn a Theithwyr yn ei defnyddio h.y. ystyr *gorger/gadje* yw rhywun nad yw'n Sipsi neu Deithiwr.
- Trwy weithio mewn unrhyw gyfleusterau cymunedol ar y safle ei hun, bydd gennych fwy o siawns o ddenu pobl ifanc i fynychu a chymryd rhan.

9. Cyfleoedd a gweithgareddau

Er mai prif nod cyfranogi yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu ymgysylltu yn y broses benderfyniadau, gellir defnyddio gweithgareddau eraill i sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan ehangach yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Gallant gynnwys:

1. *Pobl ifanc yn cynghori*
   Gall pobl ifanc wneud dyletswyddau cynghori, er enghraifft, trwy ofyn iddynt gynllunio taflenni ac ymateb i'r cynnwys er mwyn sicrhau ei fod yn ddealladwy o'u safbwynt nhw. Mae gofyn am gyngor pobl ifanc hefyd yn rhywbeth y gellir ei gynnwys yn y broses gynllunio pan gaiff unrhyw wybodaeth newydd ei chynhyrchu. Mae'n hynod bwysig cynnwys Sipsiwn a Theithwyr ifanc wrth gynllunio'ch gwasanaethau, oherwydd os nad ydynt yn teimlo bod y prosiect yn perthyn nac yn berthnasol iddynt, ni fyddant yn ei ddefnyddio.

Astudiaeth Achos:

Nod prosiect 'Y Daith Ymlaen' yw ceisio cynnwys pobl ifanc yn y broses o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau cyhyd ag y bo modd. O'r herwydd, fe ymgynghorwyd â Sipsiwn a Theithwyr ifanc er mwyn cydweithio i benderfynu ar gynnwys a diwyg y llyfryn 'Eich Hawliau' a'r wefan 'Y Daith Ymlaen'. Roedd y prosiect yn cydnabod pa mor bwysig yw cael safbwyntiau pobl ifanc a dangos bod eraill yn gwrando arnynt, er mwyn i'r prosiect eu denu i gyfranogi.

Roedd Sipsiwn a Theithwyr ifanc hefyd yn rhan o grŵp llywio'r prosiect ac yn cynnig cyfeiriad pwysig ynglŷn â sut ddylid datblygu'r prosiect yn y dyfodol. Mae'r grŵp yn rhoi'r un chwarae teg i farn pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol.

2. Cynrychiolaeth ar fforymau ieuenctid

Mae cymryd rhan a chynrychiolaeth ar fforymau ieuenctid yn cynnig cyfle i bobl ifanc gyfrannu at weithgareddau fel cynghorwyr. Dylai partneriaethau plant a phobl ifanc lleol gynnwys trefniadau lle gall plant a phobl ifanc ethol cynrychiolwyr i'r tair sedd ar Gyngor Mawreddog y Ddraig Ffynci ym mhob maes (sector statudol, sector gwirfoddol a'r cynghorau ysgol). Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau ar gyfer grwpiau buddiant arbennig gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr ifanc. Mae enghreifftiau eraill o ofyn i bobl gynghori, heblaw mewn fforymau ieuenctid, yn cynnwys:

- grŵp plant a phobl ifanc sy'n gweithredu ochr yn ochr â chorff oedolion sy'n gwneud penderfyniadau
- cynnig lle i blant a phobl ifanc mewn cynulliad a arweinir gan oedolion
- grwpiau cynghori, lle mae plant a phobl ifanc yn arwain ac yn hysbysu darn arbennig o waith.

Astudiaeth Achos:

Mae fforwm ieuenctid Sipsiwn a Theithwyr Torfaen yn trafod hawliau pobl ifanc o'r cymunedau yn Ysgol West Monmouth, Torfaen. Trwy gymryd rhan yn y fforwm hwn, mae pobl ifanc wedi: mynd i'r afael â'u pryderon ynghylch addysg bellach trwy gyfarfod â'r coleg lleol; cwrdd â'r Maer a'r Cynghorwyr lleol ar sawl achlysur; a chyfrannu at achlysur lansio gwefan 'Y Daith Ymlaen'.

Cymaint yw diddordeb rhai o'r bobl ifanc mewn cymryd rhan nes eu bod wedi'u hethol i Gyngor yr Ysgol ac wedi'u cyfweld ar orsaf radio genedlaethol. Mae'r fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd, ac wedi pennu rheolau cydweithredu ac yn ethol ei gadeirydd a'i aelodau ei hun. Mae deall hawliau plant a gweithio cyfranogol wrth wraidd y fforwm.



10. ADNODDAU DEFNYDDIOL

Gwefan 'Y Daith Ymlaen' (www.travellingahead.org.uk)

Mae'r wefan hon yn rhan o brosiect 'Y Daith Ymlaen' Achub y Plant, a sefydlwyd er mwyn helpu Sipsiwn a Theithwyr ifanc yng Nghymru i ddweud eu dweud a chyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Gall gweithwyr proffesiynol ddefnyddio pecyn offer y wefan er mwyn chwilio'r llyfrgell adnoddau am adroddiadau, cynlluniau dysgu neu ffilmiau defnyddiol. Mae'r Cyfeiriadur hefyd yn cynnwys gwybodaeth gyswllt i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda Sipsiwn a Theithwyr ifanc yn eu hardal nhw. Mae'r holl bolisïau a deddfwriaethau perthnasol sy'n effeithio ar bobl ifanc o'r cymunedau hyn ar gael hefyd. Mae adrannau diddorol hefyd i rai sy'n gobeithio dysgu mwy am hanes a diwylliant Sipsiwn a Theithwyr, neu'n bwriadu sefydlu eu fforwm ieuenctid eu hunain. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys adran i bobl ifanc drafod materion pwysig, dysgu mwy am eu hawliau ac uwchlwytho deunyddiau.

The National Association of Teachers of Travellers (www.natt.org.uk)

Sefydlwyd y Gymdeithas hon ym 1980 er mwyn cefnogi ac annog athrawon sy'n gweithio gyda phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r wefan yn cynnwys adnoddau addysgu a gwybodaeth ddefnyddiol am gynadleddau.

Travellers Times (www.travellerstimes.org.uk)

Mae Travellers Times ar-lein yn cyflwyno'r newyddion, lluniau, fideos, sylwadau ac adnoddau diweddaraf o'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Tanio! Canllawiau arferion da ar gyfranogaeth plant a phobl ifanc

Mae'r Uned Gyfranogaeth, ar ran Consortiwm Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru, wedi paratoi cyfres o ganllawiau Tanio! Dyma gyfres o ganllawiau arferion da sy'n seiliedig ar brofiadau gweithwyr cyfranogi yng Nghymru. Mae'r pynciau'n amrywio o gyflwyniad i gyfranogiad i sylw mwy penodol ar elfennau gwahanol o gyfranogi. Ewch i http://participationworkerswales.org.uk/resources.aspx

Participation, Spice it Up! Practical tools for engaging children and young people in planning and consultations

Mae'r llawlyfr hwn gan Carol Shepherd, Phil Treseder a Dynamix Ltd yn cynnwys 40 a mwy o gemau a gweithgareddau addas er mwyn annog plant a phobl ifanc i gyfrannu at brosesau gwneud penderfyniadau. Gallwch ei lawrlwytho yn www.savethechildren.org.uk

Tanio Cyfranogiad

Cafodd y canllawiau hyn gan Trudy Aspinwall a Cath Larkins eu cynhyrchu ar gyfer Cynulliad Plant a Phobl Ifanc Cymru (y Ddraig Ffynci). Y nod yw helpu i ddatblygu plant a phobl i gyfranogi'n effeithiol at benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yng Nghymru. Gweler www.draigffynci.org.uk

Hyfforddiant i weithwyr proffesiynol

Teithio Ymlaen

Mae prosiect Teithio Ymlaen yn darparu hyfforddiant am ddim i weithwyr proffesiynol a phenderfynwyr allweddol ledled Cymru. Nod y sesiynau hyfforddi hyn yw hyrwyddo dealltwriaeth ddiwylliannol a meithrin gallu ledled awdurdodau lleol er mwyn cynnwys mwy o Sipsiwn a Theithwyr ifanc. Mae modd cynnal y sesiynau hyfforddi'n fewnol neu gydag amrywiaeth o bartneriaid, a gall y rhai sy'n cymryd rhan gynnwys staff rheng flaen, rheolwyr strategol a Chynghorwyr neu benderfynwyr allweddol eraill. E-bostiwch travellingahead@savethechildren.org.uk am fwy o wybodaeth.

Dynamix

Mae Dynamix yn darparu amryw o gyrsiau hyfforddi i weithwyr proffesiynol ar bob agwedd ar weithio gyda phobl ifanc trwy gyfranogi. Mae'n cynnig hyfforddiant cyffredinol ac wedi'i deilwra'n arbennig i ddiwallu anghenion penodol. Ewch i www.dynamix.ltd.uk am fwy o wybodaeth.

Cyfranogaeth Cymru

Partneriaeth o sefydliadau cyhoeddus a'r trydydd sector yw Cyfranogaeth Cymru, a reolir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru gyda chefnogaeth panel ymgynghori sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ar ddatblygu strategol. Mae'n darparu cyngor, hyfforddiant, gwybodaeth am gymorth a chyfeiriad polisi ar ddulliau cyfranogol o ymgysylltu â dinasyddion. Ewch i www.participationcymru.org.uk